

Yn adeg y Tuduriaid roedd yna longau bychain yn galw ym Mhwillheli gyda glo, gwin a gwenith i'r gentry yn Llŷn ac yn amallawn yn gadael gyda chynnyrch ffarm.

Gwelir yn y llyfrau cofrestru bod seiri ac adeiladwyr llongau yn byw ym Mhwillheli yn ystod y ddeunawfed ganrif. Er nad oedd yna ddim coed allai gael eu defnyddio i adeiladu llongau yn yr ardal, fe fewnforid coed pwrpasol ac roedd crefftwyr yma i weithio arnynt.

Fe adeiladwyd dros bedwar cant chwe deg o longau ym Mhwillheli rhwng 1759-1878: record na gurwyd gan neb arall. *Sloops* un mast i gychwyn, hyd ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yna *Square Riggers* oedd y prif longau, a *3 Masters Fully Rugged*.

Yn ystod yr 1840au roedd Pwllheli yn enwog am adeiladu'r sgwner, *barca* a'r *3 Masters Fully Rugged* gyda dynion fel William Jones, Allt Fawr, a Robert Evans, Gadlys, yn gweithio arnynt. Roedd llawer o'r llongau yma yn masnachu ag India a Tsieina ac roedd gan yr adeiladwyr ddiddordeb mawr ym muddsodiadau eu llongau.

Yr un adeg (1850-1860) roedd prysurdeb mawr ym Mhorthmadog a Borth y Gwl, ond roedd Pwllheli yn dal i gynhyrchu llongau ar gyfer y fasnach lechi ac yn adeiladu llongau i berchenogion o borthladdoedd eraill. Henry Jones oedd y cyntaf o'r adeiladwyr mwyaf cynhyrchiol (1781-1861) ym Mhorthmadog, ac un o Bwllheli ydoedd ef.

Y rheswm am ddatblygiad y diwydiant llongau ym Mhwillheli o'r 1830/40au oedd datblygiad y diwydiant llechi a'r un a roddodd ysbrydoliaeth ym Mhwillheli oedd William Jones (1793-1855) o Brynhyfryd, Abererch. Un o Foduan oedd William Jones ac yn gweithio feldrygist ym Mhwillheli.

Yn 1835, fe lansiwyd y Brig 'Ann' o'r iard newydd yn Allt Fawr. Cafodd ei hadeiladu ar gyfer mewnforio coed o Ogledd America, ac er gwaethaf ei cholli yn sydyn iawn fe ddaeth William Jones yn fasnachwr coed blaenllaw ym Mhwillheli, hefyd yn adeiladydd a pherchennog llongau.



y W. D. Potts, y sgwner olaf a adeiladwyd ym Mhwillheli yn 1874

Mewn aml i fenter roedd William Jones yn cydweithio gyda thri o gwmanïau mawr yn Lerpwl, sef John James Meluish, Henry Winch a Robert Kent. Roedd ganddo ddiddordeb sylweddol yn y llongau yma. Fe ddaeth yr uchafbwynt mewn adeiladu llongau yn 1848 pan lansiwyd y llong 'William Carey' 659 o dunelli a enwyd ar ôl cenhadwr Batws.

Roedd y 'William Carey' yn masnachu'n rheolaidd o Lerpwl i India ac roedd William Jones yn un o brif Fedyddwyr Gogledd Cymru. Gadawai i genhadwyr a'u teuluodd deithio yn rhad ac am ddim i'r India.

Amgylchiad mawr fyddai llong ym Mhwillheli a hynny yn galw am ginio a gwin ym Mrynhyfryd gyda phobol busnes, adeiladwyr a ffrindiau.

Ar ôl marwolaeth William Jones yn 1855 fe gymerodd ei fab, Griffith Jones, y busnes drosodd ond nid oedd mor boblogaidd â'i dad.

Un arall o adeiladwyr blaenaf Pwllheli oedd Robert Evans, Gadlys (1810- 1865). Ei long o oedd y *barca* 'Gwen Evans' (wedi ei henwi ar ôl gwraig yr adeiladwr). Cychwynodd ar ei thaith gyntaf ar Ebrill

26ain, 1842 gan gyrraedd Boston ar Awst 15fed. Ei meistr ar y daith oedd David Evans o Borthmadog, gweler enwau yr ymfudwyr oedd arni ar dudalennau 21-24 'Letters from America' Capt. David Evans (1817-1895). Fe gollwyd y 'Gwen Evans' ar ei thaith i Awstralia ger Alexandria yn 1845.

Roedd teulu Pritchard yn un arall a fu'n llewyrchus mewn adeiladu llongau. Yn ei mysg yr oedd Arthur Pritchard a adeiladodd y sgwner 'Theda' (1876) a hwyliodd o Labrador i Gibraltar o dan 12 diwmod yn yr 1880au.

Y llong fwyaf a adeiladwyd ym Mhwillheli oedd y *barca* 'Margaret Pugh' yn 1862 ac yn 693 o dunelli. Y bobl tu cefn i'r fenter hon oedd Hugh Pugh, Bancar a'r brodyr John ac Owen. Y ddau yn ddyinion busnes yn y dref un yn groser a'r llall yn werthwr dilladau.

O 1859 i'r '70 roedd rhan fwyaf o longau Pwllheli yn cael eu hadeiladu ar gyfer y farchnad lechi.

Yr adeiladydd olaf oedd David Williams fe adeiladodd y sgwner olaf sef y 'W.D. Potts' a hefyd y ddwy Brig 'Carl' a 'Louise'.

Capten a Mrs Robert Williams o Bwllheli oedd perchnogion y 'W.D. Potts', llong adnabyddus iawn. Fe'i lansiwyd gan eu merch Elizabeth oedd yn ddeunaw oed ac a ddaeth yn ddiweddarach yn briod â Chaptain John Evans, Isallt, Pwllheli.

I ddathlu achlysur y lansio, cyflwynwyd i Elizabeth oriawr aur gan Mr Walter Dunlop Potts i'r hwn yr arferai Capten Williams gario llwythi o lechi ac trwy y blaen.

Wrth edrych trwy log y 'W.D. Potts' yn Archifdy Gwynedd, dyma oedd cyflog mis yn y flwyddyn 1900: Capten - £4/0/0; Mate - £3/10/0; A.B. - £3/10/0; O.S. - £2/0/0; Cook - £1/0/0; Boy - £1/0/0. Dim gwyliau na thâl dros ben nac arian gosodedig. (Roedd fy nhad Henry Jones, Bryngolau yn A.B. arni 22 oed yn 1907).

Alfred Jones

